NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Lithotripsi mewnfasgwlaidd ar gyfer rhydwelïau wedi'u calcheiddio mewn clefyd rhydwelïau perifferol

3 Ionawr 2024

Prin yw'r dystiolaeth sy'n dangos pa mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio. Felly, gellir ond ei wneud â threfniadau arbennig. Mae hyn yn golygu y byddwch yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda y mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau.

Achosir clefyd y rhydwelïau perifferol pan fydd sylweddau brasterog (plac) sy'n cronni yn y rhydwelïau yn rhwystro'r cyflenwad gwaed i rannau o'r corff, fel rheol y coesau. Gall y plac galedi (calcheiddio) a mynd fel asgwrn. Os bydd y clefyd yn ddifrifol, gall y rhan o'r corff yr effeithir arni farw a bydd angen ei thrychu, neu gall achosi i'r unigolyn farw.

Yn y driniaeth hon, caiff tiwb hir, tenau a hyblyg (cathetr) gyda balŵn ar y pen ei roi i mewn i'r rhydweli yr effeithir arni (mewnfasgwlaidd). Caiff tonnau pwysedd acwstig eu hanfon o'r balŵn i feddalu'r plac wedi calcheiddio (lithotripsi) a galluogi'r rhydweli i ledaenu. Caiff y cathetr a'r balŵn eu tynnu allan ac weithiau caiff tiwb metel bach, a elwir yn stent, ei osod i mewn er mwyn helpu i gadw'r rhydweli ar agor. Nod y driniaeth yw gwella llif y gwaed ac atal trychiadau neu farwolaeth.

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylech fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am eich gofal.

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio risgiau a manteision y driniaeth hon ac egluro sut y'i gwneir. Dylai drafod eich opsiynau a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Dylai gynnig rhagor o wybodaeth i chi am y driniaeth. Gellir cynnwys eich teulu neu'ch gofalwyr yn y broses os hoffech hynny, neu os bydd angen eu cynnwys.

Gofynnir i chi benderfynu a ydych yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dysgwch ragor am roi cydsyniad i driniaethau ar wefan y GIG.

## Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt

- Faint o apwyntiadau y bydd eu hangen arnaf?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- A fydd yn rhaid i mi aros yn yr ysbyty?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?

## Gwybodaeth a chymorth

Gall tudalen we y GIG ar glefyd y rhydwelïau perifferol fod yn lle da i gael gwybod mwy.

- Mae gwybodaeth NICE am ganllawiau IechydTech yn esbonio beth yw IechydTech a sut rydym yn eu hasesu.
- Mae gwybodaeth NICE am argymhellion ar gyfer IechydTech yn esbonio beth yw'r trefniadau arbennig.

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Healthwatch lleol.

ISBN: 978-1-4731-8957-7